**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
—
**Standards of Conduct Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddSafonau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddStandards@senedd.wales
senedd.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

Dyddiad | Date: 14 Hydref 2022

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc

Drwy e-bost

Pwnc | Subject: Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad

Annwyl Manon,

Yn ei gyfarfod ar 10 Hydref, trafododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) adroddiad gan y Comisiynydd Safonau mewn perthynas ag achos o gamddefnyddio adnoddau'r Senedd gan Aelod o'r Senedd. Mewn gohebiaeth â'r Comisiynydd, dywedodd yr Aelod dan sylw y byddai wedi bod yn ddefnyddiol, o bosibl, cael hyfforddiant ynghylch y gofynion y mae'r Aelodau'n ddarostyngedig iddynt yn ystod cyfnod etholiad lleol.

Nododd y Pwyllgor fod yr Aelodau'n cael hyfforddiant amrywiol ar ddechrau tymor y Senedd, gan gynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, roedd o'r farn y byddai'n fuddiol cynyddu'r hyfforddiant sydd ar gael, neu gynyddu'r ymdrechion i hyrwyddo'r hyfforddiant sydd ar gael, drwy gydol y Senedd. Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol atgyfnerthu dealltwriaeth ynghylch cyfrifoldebau'r Aelodau cyn cyfnod etholiad lleol.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried yr argymhelliad hwn cyn ymateb i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.